# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 3ydd 2025 yn Neuadd Pentref Coedybryn

**Yn bresennol :** Cyng. Sharon Thomas (Cadeirydd)

Cyng. Sian Williams

Cyng. Mark Davies

Cyng. Carol Davies

Cyng. Osian Davies

Cyng. Ceri Jones

Cyng. Maldwyn Lewis

**Clerc** Helen Horscroft

**1 . Ymddiheuriadau**

Cyng. Llyr Evans, Cyng. Rob Jones, Cyng. Teifi Evans, Cyng. Emyr Jones

**2. Datgan Diddordeb -** Dim

**3. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

3.1 – Derbyniodd pawb gopi o gofnodion Mai a chynigodd y Cyng. Sian Williams eu bod yn gywir, ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Davies

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

4.3 Mae arwydd T Llew Jones lan

4.5 Mae'r clerc newydd wedi danfon llythyr ei bod yn derbyn y swydd. Penmorfa wedi ei hysbysu, enw Roger Davies wedi cal ei dynnu bant or wefan , manylion y Cyng. Osian Davies wedi cal ei ychwanegu a enw'r clerc newydd wedi newid ar y wefan hefyd. E Bost wedi ei ddanfon i Un Llais Cymru er mwyn newid enw'r clerc.

8. Wedi cytuno talu £23 a £4 y mis drwy Debit Uniongyrchiol i BCCIT i ddiweddaru'r gliniadur. Hefyd cost o £85 i'w setio fyny. Prisiau printers o £39.99 lan. Y Cyng. Maldwyn Lewis yn cynnig holi BCCIT am bris un lliw. Microsoft Direct £8.49-ond y gost hyn heb unrhyw 'back up' na chefnogaeth.

Diolch i bawb am dorri porfa a tacluso rownd yr ardal. Diolch i'r Cyng. Sian Williams am blannu'r blodau. Mae ishe rhoi blodau mewn yn y bocs ychwanegol sydd yn Croeslan a Brongest.

**5. Tool kit**

5.1 - Rydym wedi dechrau rhoi'r tool kit yn ei le. Y Cyng. Sian Williams i ddanfon y manylion hyd yn hyn at y Cynghorwyr eraill.

**6. De-Fib pads**

6.1 - Set o pads ychwanegol yn cal ei rhoi gyda'r De Fib spar sydd gyda'r Cadeirydd. Mae'r pads hyn yn dod i ben ar y 3:2:26

6.2 - Pads eraill yn dod i ben : Coedybryn, Penrhiwpal, Brongest, Ffostrasol - Awst 2026

Croeslan – 16.11.2026

Rhydlewis, Maesllyn, Bwlchygroes – 03.02.2026

**7. Cyrsiau**

7.1 - Un Llais Cymru wedi danfon rhestr o cyrsiau. Pawb yn hapus i ddechrau yn mis Medi ar ol gwyliau haf. Bwysig i neud yr un 'Code of Conduct'. Bydd ishe'r clerc newydd neud rhai sy'n addas i'r swydd.

**8. Materion y Cynghorydd Sir**

8.1 - Cyfarfod blynyddol wedi bod – Cadeirydd yw Ann Bowen Morgan, Is Cadeirydd yw John Roberts.

8.2 - Mae Rali CFFI Ceredigion ym Mhenparc dydd Sadwrn - pob lwc i aelodau lleol.

8.3 - Mae ymgynghoriad o safleoedd ailgylchu yn bwysig iawn. Ishe pawb edrych arno.

8.4 - Pencampwriaeth seiclo yn Aberaeron a Aberystwyth ar y 26 a 27 o Fehefin.

8.5 - Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ceredigion am neud yn dda yn Eisteddfod yr Urdd.

8.6 - Ma bwrsari o £1500 ar gael i bobol ifanc rhwng 11 a 20 oed gyda'r Fforwm Ieuenctid am hyfforddiant/cyrsiau .

**9. Awdit 2024/2025**

9.1 - Mae popeth yn barod i fynd at Gwyn dydd Iau. Y Cyng. Sian Williams yn mynd ar dogfennau ato. Allwn ni gwrdd cyn y cinio i drafod yr awdit ? Clerc i ddanfon e i bawb. Mark yn cynnig cwrdd yn festri Bwlchygroes ond pawb yn gytun i neud e trwy e bost.

**10. Gohebiaeth**

10.1 - Eglwys Troedyraur yn gofyn am arian i dorri coeden lawr. Cytuno rhoi £300. Y Cyng. Osian Davies yn cynnig, a'r Cyng. Sian Williams yn eilio. Pawb yn pleidleisio i dalu mis nesa.

10.2 - Ymgynghoriad 29.05.25 Cynllun Gwasanaethau Clinigol.

10.3 - Caru'ch Cymuned.

10.4 - Anfoneb Boomerang £204 i dalu mis nesa . Y Cyng. Maldwyn Lewis yn cynnig, a'r Cyng. Carol Davies yn eilio.

10.5 - Gwobrau Rheoli Cymunedol – Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol.

10.6 - Bwletin misol Un Llais Cymru

10.7 - Cymorth Cynllunio Cymru – Rhaglen Hyfforddi. www.planningaidwales.org.uk/events. Y Cyng. Mark Davies yn dangos diddordeb – bydd rhaid talu am y cwrs yn gyntaf , cyngor i rhoi'r arian nol.

10.8 - Un Llais Cymru – e bwletin , ymgynghoriad gwella'r broses o weinyddu a gorfodi'r Dreth Cyngor yng Nghymru.

**11. Cyllid**

11.1 – Ffioedd Archwilio Cymru £2860   rhif siec -  001814

Neuadd Ffostrasol £60  rhif siec – 001813

Y Ddau siec wedi ei arwyddo gan Y Cyng. Ceri Jones a'r Cyng. Mark Davies.

11.2 Cafodd nodyn i'r banc i drosglwyddo £3000 ei arwyddo hefyd.

**12. Cyflog y Clerc**

12.1 – y clerc i ddanfon e bost i Un Lais Cymru i weld beth yw 'Spinal Column Point' 2025/2026 Clerc.

**13. Materion Ardal**

13.1 - Rhydlewis – Ma'r ceudwll ar y sgwar yn gwaethygu.

13.2 - Ffostrasol – Ceudwll ar bwys y siop yn gwaethygu a ma tipyn o anrhefn yn Bwlchygroes wrth iddynt gwneud gwith ar y rheol.

Mae nosweithu bois y beics yn boblogaidd iawn yn y tafarn.  Tynnu pobol ir pentre.

13.3 - Coedybryn – mae ci o'r pentre yn poeni defaid.  Mae un dafad wedi ei ladd.  Mae'r heddlu yn ymwybodol.

Llawer o geir yn cal eu parcio tu alllan i Bro Gernos.  Angen bod yn ofalus iawn pan fod cerbydau mawr fel tractorau yn mynd heibio.

13.4 - Maesllyn – Mae'r arwydd wedi diflannu ac mae rhywun wedi tipo'r gasgen.

13.5 - Croeslan – Y Cadeirydd, Sharon Thomas yn estyn llongyfarchiadau i'r Cyng. Rob Jones a'i deulu ar enedigaeth mab bach, Aled Huw yn ddiweddar.

13.6 – Bydd angen roi dwr i'r blodau yn Bwlchygroes, Ffostrasol a Capel Cynon.

**14. Cyfarfod nesaf**

**Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Rhydlewis ar y 1af o Orffennaf am 7.30yh**

**Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir**

SThomas                                    **01.07.25**

----------------------------------------            -------------------------------

**Arwyddwyd (Y Cadeirydd)**                    **Dyddiad**